Y cyfraddau diweddaraf
7 Ebrill 2010

Cyfraddau llog

Darllenwch hwn ochr yn ochr â'ch llyfryn gwerthiannau

Cynilion sy'n curo chwyddiant – rhydd o dreth

Wedi'u cysylltu â Mynegai Prisiau Adwerthu	Lleiafswm buddsoddi	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol 3 blynedd **Cyhoeddiad 20 o 7 Ebrill 2010** Cyfradd warantedig wedi'i chompowndio dros 3 blynedd	£100	Mynegrifo+ 1.00% AER	Mynegrifo+ * 1.25% cyfradd sylfaenol 1.67% cyfradd uwch
Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol 5 mlynedd **Cyhoeddiad 47 o 7 Ebrill 2010** Cyfradd warantedig wedi'i chompowndio dros 5 mlynedd	£100	Mynegrifo+ 1.00% AER	Mynegrifo+ * 1.25% cyfradd sylfaenol 1.67% cyfradd uwch

Cynilion eraill rhydd o dreth

Sefydlog	Lleiafswm buddsoddi	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog 2 flynedd **Cyhoeddiad 47 o 19 Awst 2009** Cyfradd warantedig wedi'i chompowndio dros 2 flynedd	£100	1.25% AER	* 1.56% cyfradd sylfaenol 2.08% cyfradd uwch
Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog 5 mlynedd **Cyhoeddiad 96 o 19 Awst 2009** Cyfradd warantedig wedi'i chompowndio dros 5 mlynedd	£100	2.25% AER	* 2.81% cyfradd sylfaenol 3.75% cyfradd uwch
Bondiau Bonws Plant **Cyhoeddiad 34 o 19 Awst 2009** Cyfradd warantedig wedi'i chompowndio dros 5 mlynedd, gan gynnwys bonws y 5ed pen-blwydd (gweler tudalen 5)	£25	2.50% AER	Dim rhwymedigaeth treth i rieni na phlant

Ar gael ar-lein a thros y ffôn yn unig

Yn uniongyrchol oddi wrth CBC yn unig

Amrywiol	Lleiafswm buddsoddi	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
ISA Uniongyrchol **O 19 Awst 2009**	£100	2.50% AER	* 3.12% cyfradd sylfaenol 4.16% cyfradd uwch

* Cyfraddau gros cyfatebol ar gyfer trethdalwyr sylfaenol ac uwch ar gyfraddau treth presennol.

Cyfradd Ychwanegol Gyffredinol (amrywiol) a enillir ar Gyhoeddiadau 7 i 43 o Dystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog a aeddfedodd cyn 8 Hydref 2001 am bob cyfnod cyflawn o dri mis y'u daliwyd: 0.09% y flwyddyn rhydd o dreth/AER (o 1 Ebrill 2009).

Gweler tudalen 6 am y **Diffiniadau**

Bondiau cyfradd sefydlog

Yn uniongyrchol oddi wrth CBC yn unig

Ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r post yn unig

Nid yw ein Bondiau Twf Gwarantedig ar werth ar hyn o bryd. Os cofrestrwch yn **nsandi.com/cy** er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy negeseuon e-bost, rhown wybod i chi pan fydd y Cyhoeddiadau nesaf ar gael.

Buddsoddiadau sy'n talu incwm misol

Yn uniongyrchol oddi wrth CBC yn unig

Ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r post yn unig

Nid yw ein Bondiau Incwm Gwarantedig ar werth ar hyn o bryd. Os cofrestrwch yn **nsandi.com/cy** er mwyn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy negeseuon e-bost, rhown wybod i chi pan fydd y Cyhoeddiadau nesaf ar gael.

Amrywiol	Swm	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
Bondiau Incwm O 20 Mai 2009	£500-£24,999 £25,000+	1.70% gros/ 1.71% AER 2.00% gros/ 2.02% AER	Trethadwy, telir yn gros

Cyfrifon cynilo cyfradd amrywiol

	Swm	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
Cyfrif Cynilo Mynediad Rhwydd O 19 Chwefror 2009	£100-£9,999 £10,000-£49,999 £50,000+	0.30% gros/AER 0.45% gros/AER 0.70% gros/AER	Trethadwy, telir yn gros
Cyfrif Buddsoddi O 18 Mawrth 2009	£1-£24,999 £25,000+	0.20% gros/AER 0.30% gros/AER	Trethadwy, telir yn gros

Ar gael ar-lein a thros y ffôn yn unig

Yn uniongyrchol oddi wrth CBC yn unig

Cynilwr Uniongyrchol O 8 Mawrth 2010	£1+	2.00% gros/AER	Trethadwy, telir yn gros

Gweler tudalen 6 am y **Diffiniadau**

Newidiadau i'n hystod gynnyrch

Nid yw Bondiau Incwm Gwarantedig Pensiynwyr CBC na Bondiau Cyfalaf CBC ar werth bellach.

Nid oes unrhyw achos i bryderu, gallwch gadw unrhyw rai o'r Bondiau rydych eisoes yn eu dal a byddant yn parhau i ennill llog ar yr un gyfradd nes iddynt aeddfedu. Bydd eich arian yn aros yn ddiogel 100%, wedi'i warantu gan Drysorlys EM. Ysgrifennwn atoch ychydig cyn i'ch Bondiau aeddfedu i roi gwybod i chi pa ddewisiadau y gallwch eu gwneud.

Cynhyrchion nad ydynt ar werth mwyach

Amrywiol	Swm	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
ISA Arian O 18 Mawrth 2009	£1+	0.50% AER	Rhydd o dreth
ISA Arian T (gynt ISA TESSA-yn-unig) O 18 Mawrth 2009	£1+	0.50% AER	Rhydd o dreth

Gweler tudalen 6 am y **Diffiniadau**

Cyfraddau fesul blwyddyn

Rhaid dal Tystysgrifau Cynilo a Bondiau Bonws Plant am y tymor llawn i ennill y cyfraddau gwarantedig wedi'u compowndio a ddangosir yn y tablau a welir yn y daflen hon. Cyfrifir y llog fesul blwyddyn ar y cyfraddau a ddangosir isod.

Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol 3 blynedd Cyhoeddiad 20

Pris prynu	+	mynegrifo am flwyddyn 1	+	0.85% o'r pris prynu	=	gwerth y pen-blwydd 1af
Gwerth y pen-blwydd 1af	+	mynegrifo am flwyddyn 2	+	0.95% o werth y pen-blwydd 1af	=	gwerth yr 2il ben-blwydd
Gwerth yr 2il ben-blwydd	+	mynegrifo am flwyddyn 3	+	1.21% o werth yr 2il ben-blwydd	=	gwerth aeddfedu

Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol 5 mlynedd Cyhoeddiad 47

Pris prynu	+	mynegrifo am flwyddyn 1	+	0.75% o'r pris prynu	=	gwerth y pen-blwydd 1af
Gwerth y pen-blwydd 1af	+	mynegrifo am flwyddyn 2	+	0.85% o werth y pen-blwydd 1af	=	gwerth yr 2il ben-blwydd
Gwerth yr 2il ben-blwydd	+	mynegrifo am flwyddyn 3	+	0.90% o werth yr 2il ben-blwydd	=	gwerth y 3ydd pen-blwydd
Gwerth y 3ydd pen-blwydd	+	mynegrifo am flwyddyn 4	+	1.15% o werth y 3ydd pen-blwydd	=	gwerth y 4ydd pen-blwydd
Gwerth y 4ydd pen-blwydd	+	mynegrifo am flwyddyn 5	+	1.36% o werth y 4ydd pen-blwydd	=	gwerth aeddfedu

Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog 2 flynedd Cyhoeddiad 47

Blwyddyn 1	1.15%
Blwyddyn 2	1.36%

Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog 5 mlynedd Cyhoeddiad 96

Blwyddyn 1	1.85%
Blwyddyn 2	1.95%
Blwyddyn 3	2.15%
Blwyddyn 4	2.45%
Blwyddyn 5	2.86%

Bondiau Bonws Plant Cyhoeddiad 34

Am y 5 mlynedd gyntaf, mae pob uned gwerth £25 yn ennill llog o 1.85% y flwyddyn wedi'i gompowndio. Ar 5ed pen-blwydd y prynu, mae'n ennill bonws o £0.89 (3.56% o'r pris prynu).

Ad-daliad cynnar: ni enillir llog na mynegrifo ar unrhyw un o'r Bondiau na'r Tystysgrifau uchod (ac eithrio Ailfuddsoddiadau) a ad-delir yn y flwyddyn gyntaf.

Bondiau Premiwm

Cyhoeddir manylion o gronfa wobrau Bondiau Premiwm bellach mewn taflen ar wahân. Codwch gopi o'r daflen cystadleuaeth tynnu rhifau Bondiau Premiwm yn rheolaidd er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y gwobrau y gallech eu hennill, y siawns o ennill a chyfradd log y gronfa wobrau gyfredol.

Cyfrif Gweddilliol

Pan fo un o gynhyrchion CBC wedi'i gau a ninnau heb lwyddo yn ein hymdrechion i ddychwelyd yr arian a fuddsoddwyd i'r cwsmer, trosglwyddir y daliannau sydd dros ben i'r Cyfrif Gweddilliol.

Mae dau fath o ddaliannau mewn Cyfrif Gweddilliol: Math A lle enillir llog a Math B lle nad enillir llog.

	Swm	Cyfradd log	Gwybodaeth dreth
Math A: **O 18 Mawrth 2009** (Cyfrif Cyffredin, Bondiau Cadw, Cynllun Blynyddol, SAYE a Chyfrif y Trysorydd)	£1+	0.10% gros/AER	Trethadwy, telir yn gros
Math B: (Tocynnau Rhodd, Stampiau Cynilo a Bondiau Cynilion Prydeinig)		0%	

Adenillion yn gysylltiedig â Mynegai FTSE 100

Yn uniongyrchol oddi wrth CBC yn unig

Ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy'r post yn unig

Bond Ecwiti Gwarantedig

Mae ein Bond Ecwiti Gwarantedig yn cynnig twf posibl sy'n gysylltiedig â mynegai cwmni'r FTSE 100, heb unrhyw risg i'ch cyfalaf. Mae ar gael mewn Cyhoeddiadau cyfyngedig. Os ydych yn cofrestru yn **nsandi.com/cy** i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf drwy neges e-bost, rhown wybod i chi cyn gynted ag y bydd pob Cyhoeddiad yn mynd ar werth.

Y wybodaeth ddiweddaraf am gyfraddau llog

Mae'r holl gyfraddau yn gywir adeg argraffu. Gellir rhoi'r gorau i werthu Cyhoeddiadau o gynhyrchion cyfradd sefydlog a gall cyfraddau amrywiol newid heb roi rhybudd. I gael gwybod beth yw'r cyfraddau diweddaraf, ffoniwch ni neu ewch i'n gwefan. I gael y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i gyfraddau llog CBC, gallwch gofrestru ar ein gwefan ac anfonwn neges e-bost atoch chi pryd bynnag bydd y cyfraddau'n newid. Ewch i **nsandi.com/cy** a chlicio ar "Diweddariadau cais".

Diffiniadau

Mynegai Prisiau Adwerthu (MPA) yw'r mesur chwyddiant rydym yn ei ddefnyddio i gyfrifo codiadau yng ngwerth Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol. Llunnir y Mynegai a'i gyhoeddi'n fisol gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG).

Ystyr **rhydd o dreth** yw fod llog a gwobrau a enillir wedi'u heithrio o Dreth Incwm a Threth Enillion Cyfalaf y DU.

Cyfradd dybiedig yw **AER** (Cyfradd Flynyddol Gyfatebol) sy'n dangos beth fyddai'r gyfradd log flynyddol petai'r llog yn cael ei gompowndio bob tro y'i telir. Lle telir llog yn flynyddol, mae'r gyfradd a ddyfynnir a'r AER yr un fath.

Gros yw'r gyfradd log drethadwy heb dynnu Treth Incwm y DU.

Net yw'r gyfradd log sy'n daladwy ar ôl tynnu Treth Incwm y DU ar y gyfradd a benodir yn ôl y gyfraith (20% ar hyn o bryd).

I gael mwy o wybodaeth

Y ffordd gyflymaf a mwyaf hwylus yw ein ffonio am ddim ar **0500 007 007*.**

Ymdrinnir â'ch galwad gan aelod o dîm gwasanaeth cwsmeriaid y DU sydd wedi ennill gwobrau. Rydym ar gael bob dydd o 7 o'r gloch y bore hyd hanner nos. Mae'n bosibl na fydd galwadau o ffonau symudol am ddim. Efallai y bydd galwadau'n cael eu recordio.

Gallwch:

- gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'n cynilion a'n buddsoddiadau
- gofyn am unrhyw un o'n llyfrynnau gael eu hanfon atoch
- prynu Bondiau neu Dystysgrifau Cynilo penodol, neu wneud cais i agor cyfrif cynilo, trwy ddefnyddio'ch cerdyn debyd (rhaid i'r cerdyn fod yn eich enw chi)

Cynilion a buddsoddiadau y gellir eu prynu dros y ffôn:

Bondiau Premiwm
ISA Uniongyrchol
Cynilwr Uniongyrchol
Cyfrif Cynilo Mynediad Rhwydd
Cyfrif Buddsoddi
Tystysgrifau Cynilo Mynegrifol
Tystysgrifau Cynilo Llog Sefydlog
Bondiau Twf Gwarantedig (pan fyddant ar werth)
Bondiau Incwm Gwarantedig (pan fyddant ar werth)
Bondiau Incwm
Bondiau Ecwiti Gwarantedig (pan fyddant ar werth)

Gallwch gysylltu â ni hefyd:

- dros y rhyngrwyd – ewch i **nsandi.com/cy**
- trwy'r post – ysgrifennwch at **National Savings and Investments, FREEPOST GW3276, Glasgow G58 1BR**

Pan fyddwch yn cysylltu â ni, rhowch rif eich cyfrif, rhif deiliad, rhif cwsmer neu rif CBC i ni fel y gallwn ymdrin â'ch ymholiad yn gyflym.

Cwynion – sut y gallwn eu hunioni

Os byddwn yn gwneud camgymeriad, fe geisiwn unioni pethau'n ddi-oed ac yn ddiffwdan. Os oes gennych gŵyn, mae gennym drefn a luniwyd i'w datrys yn deg. Rydym hefyd wedi'n diogelu gan Wasanaeth yr Ombwdsmon Ariannol.

*Ymdrinnir â phob ymholiad dros y ffôn yn Saesneg, oni bai eich bod yn gofyn am wasanaeth yn Gymraeg, sydd ar gael o ddydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9 o'r gloch y bore a 5 o'r gloch y prynhawn.

Rydym yma i helpu

Gallwch ffonio CBC nawr am ddim

Rydym bellach yn defnyddio rhifau rhadffôn p'un a ydych am wneud cais am gyfrif neu fuddsoddiad neu gael mwy o wybodaeth. Mae'r rhif 0845 y mae'n rhaid talu am alwadau pan y'i ddefnyddir ar gael o hyd gan y bydd yn cymryd peth amser i ni ddiweddaru'n holl lyfrynnau a'n llythyrau, ond os ffoniwch chi ni ar y rhif hwnnw, bydd neges a recordiwyd ymlaen llaw yn eich atgoffa am un o'r rhifau rhadffôn isod.

Gwerthiannau – ffoniwch ni am ddim ar
0500 500 000

Ymholiadau – ffoniwch ni am ddim ar
0500 007 007

Ymdrinnir â'ch galwad gan aelod o dîm gwasanaeth cwsmeriaid y DU sydd wedi ennill gwobrau. Rydym ar gael bob dydd o 7 o'r gloch y bore hyd hanner nos. Mae'n bosibl na fydd galwadau o ffonau symudol am ddim. Efallai y bydd galwadau'n cael eu recordio.

Ewch i'n gwefan
nsandi.com/cy

Ysgrifennwch atom yn

National Savings and Investments
FREEPOST GW3276
Glasgow G58 1BR

Yn cael trafferth darllen y daflen hon?

Mae'r daflen hon ar gael yn Braille, ar dâp sain ac mewn print bras hefyd. Gall defnyddwyr Minicom (ffôn testun) gysylltu â ni ar 0800 056 0585.

NS&I 772(W)/2010/02